COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD AM Y CYFNOD

1 Ebrill 2008 – 31 Mawrth 2009

Rhagfyr 2009

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Aelodau'r Comisiwn: -

Y Llefarydd, Y Gwir Anrhydeddus Michael Martin AS, Cadeirydd *ex-officio* – hyd at 22 Mehefin 2009
Y Llefarydd, Y Gwir Anrhydeddus John Bercow AS, Cadeirydd *ex-officio* – o 22 Mehefin 2009

Yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lloyd Jones, Dirprwy Gadeirydd – a benodwyd ar 18 Rhagfyr 2006 ac a ailbenodwyd ym mis Hydref 2009.

Mr Paul Wood, Comisiynydd – a benodwyd yn gyntaf ar 1 Mai 2008 tan 30 Ebrill 2013

Mr John Bader, Comisiynydd – a benodwyd yn gyntaf ar 1 Mai 2008 tan 30 Ebrill 2013

Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr (Asesydd)
Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans (Asesydd)

Mr E H Lewis, Cyd-ysgrifennydd (Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru) – a benodwyd ar 1 Ionawr 2002

Comisiwn Ffiniau Cymru
Tŷ Caradog
1 – 6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 020 2039 5250

E-bost: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.bcomm-wales.gov.uk

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad Blynyddol 2008 i 2009

RHAGAIR

Nid oes llawer i'w adrodd amdano y tro hwn. Mae'r Comisiwn wedi cyfarfod ar un achlysur yn unig yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Yn ystod cyfnodau rhwng yr Arolygon Cyfnodol, fel arfer nid oes gwaith sylweddol i'w wneud ac eithrio Arolygon Interim ac nid ydym wedi cynnal un yn ystod y cyfnod.

Ers ein Hadroddiad blaenorol, mae'r Cadeirydd, Y Gwir Anrhydeddus Michael Martin PC AS wedi gadael ei swydd a'i olynydd yw'r Gwir Anrhydeddus John Bercow PC AS. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Arglwydd Martin o Springburn, fel yr adweinir bellach, am ei ran yng ngwaith y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Hoffwn estyn croeso i'w swydd i'n Cadeirydd newydd gan ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad i'n Hysgrifenyddiaeth a phawb arall sydd wedi cynorthwyo â chwblhau gwaith sylweddol y Comisiwn.

Syr David Lloyd Jones
Dirprwy Gadeirydd

Hydref 2009

CYFLWYNIAD

Y Noddwr

1. Mae Comisiwn Ffiniau Seneddol Cymru yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir ac a ariennir yn llwyr gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ). Mae'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i ddyletswydd statudol ef yw eu cyflwyno gerbron y Senedd. Os yw'r adroddiad yn argymell bod angen addasu ffiniau etholaethau Seneddol neu ffiniau rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, mae'n rhaid iddo hefyd gyflwyno Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor sy'n rhoi grym i'n hargymhellion. Os bydd yn penderfynu diwygio'r argymhellion, mae'n rhaid iddo hefyd gyflwyno datganiad o'i resymau dros wneud hyn. Yr Arglwydd Ganghellor sy'n penodi'r Dirprwy Gadeirydd, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penodi un o aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r ddau Gyd-ysgrifennydd (gweler yr Aelodaeth isod).

Y Comisiwn

2. Cyfansoddir y Comisiwn o dan Adran 2 ac Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n gorff annibynnol, anwleidyddol a llwyr amhleidiol ac achubir ar bob cyfle i bwysleisio'n gryf iawn nad yw ac ni ddylai canlyniadau etholiadau blaenorol fod yn rhan o ystyriaethau'r Comisiwn. Nid yw effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol yn cael eu hystyried ychwaith. Yn ei nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Comisiynwyr Cynorthwyol, cynghora'r Comisiwn na ddylai'r ffactorau hyn fod yn rhan o ystyriaethau mewn ymchwiliadau cyhoeddus.

3. Ers sefydlu Comisiwn parhaol ym 1944 tan 1 Ionawr 2002, roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn cael ei staffio yn Llundain, hyd braich o'r Adran Noddi, gan swyddogion y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'i dau ragflaenydd, y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol a'r Swyddfa Cyfrifiadau ac Arolygon Poblogaeth. Darparai'r ONS ystafelloedd a gwasanaethau ategol eraill i'r Comisiwn. Adferwyd costau'r staff a chostau eraill yr ONS mewn perthynas â chefnogi'r Ysgrifenyddiaeth oddi wrth yr Adran Noddi bob tri mis mewn ôl-ddyled. Er 1 Ionawr 2002, swyddogion Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, a leolir yng Nghaerdydd, sydd wedi staffio'r Ysgrifenyddiaeth.

Aelodaeth

4. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd *ex-officio* pob un o bedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Llefarydd yn amlygu ein natur annibynnol, amhleidiol ac anwleidyddol. Nid yw'r Llefarydd yn chwarae unrhyw ran mewn cynnal arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu ein cyfarfodydd, yn Farnwr yr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lloyd Jones (Syr David). Yr Aelodau yw Mr Paul Wood a Mr John Bader.

5. Mae'r MoJ yn gyfrifol am benodi un aelod i'r Comisiwn ac mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gyfrifol am benodi'r ail aelod.

6. Mae'r Comisiynwyr yn benodedigion rhan-amser sy'n cyfarfod, pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn mynnu, yn y swyddfeydd a rennir gyda Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd un cyfarfod yn ystod hyd cyfnod yr adroddiad hwn. Ers derbyn Deddf y Comisiynau Ffiniau 1992, talwyd ffi ddyddiol i Aelodau Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy Gadeirydd) y cytunwyd arni gan yr Adran Noddi a'r Trysorlys ar gyfer gwaith a gyflawnir ar ran y Comisiwn ac mae ganddynt hawl, ynghyd â'r Dirprwy Gadeirydd, i adfer unrhyw dreuliau (megis teithio a chynhaliaeth) o ganlyniad i waith y Comisiwn.

7. Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau sy'n cael eu diweddaru bob blwyddyn. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.

8. Mae gan y Comisiwn ddau asesydd statudol. Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr yw un ohonynt ac mae ef yn Gyfarwyddwr yr ONS. Y llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans. Mae dirprwyon yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn; Mrs Alison Whitworth ar ran y Cofrestrydd Cyffredinol a Mr Aaron Sollis ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

9. Mae dau Gyd-ysgrifennydd: Mr Edward Lewis, sy'n bennaeth ar yr Ysgrifenyddiaeth ac yn Ysgrifennydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru hefyd, a'r ail, sy'n wag ar hyn o bryd, a benodir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Yr Ysgrifenyddiaeth

10. Swyddogaeth ein Hysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr i gynnal eu harolygon a gweithredu eu penderfyniadau. Lleolwyd yr Ysgrifenyddiaeth yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yng Nghaerdydd ac mae materion staffio ac ystafelloedd yn cael eu trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn hyn.

Dyletswyddau Statudol

11. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i arolygu dosbarthiad seddi mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon o ffiniau etholaethau Seneddol a chynhyrchu adroddiadau ac argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n bosibl i'r Comisiwn gynnal arolygon diamod mewn un neu fwy o etholaethau os yw'r Comisiynwyr o'r farn bod hyn yn briodol.

Cyswllt â Chyrff Eraill

12. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi cadw cyswllt rheolaidd â'r Comisiynau Ffiniau eraill trwy gyfarfodydd a chyfnewid gwybodaeth. Cynrychiolwyd y Comisiwn mewn cyfarfod o'r Comisiynau Ffiniau Seneddol a Llywodraeth Leol a gynhaliwyd yn Llundain ar 31 Mawrth / 1 Ebrill 2009. Cadwyd mewn cysylltiad rheolaidd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Ordnans hefyd

AMCANION

Amcan Cyffredinol

13. Arolygu'n barhaus gynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Amcanion Penodol ar gyfer 2008/2009

14 Mae'r Comisiwn yn sefydlu ei amcanion ei hun bob blwyddyn. Ar gyfer 2008/09 ni sefydlwyd amcanion oherwydd rhaglen waith gyfyngedig.

Cynllun Iaith Gymraeg

15. Yn unol â thelerau ein Cynllun Iaith Gymraeg, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithrediad y cynllun.

CYLLIDEB A GWARIANT

16. Mae'r tabl canlynol yn cymharu'r gwir wariant â'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol a gwmpasir gan yr adroddiad hwn, ac mae'n amlygu unrhyw wahaniaethau.

Cyllideb a Gwariant fesul Is-bennawd – 2008/2009

Elfen y Gyllideb	Cyllideb (£)	Gwariant (£)	Gwahaniaeth (£)
Cyflogau ac YG	26,800	6,464	-20,336
Gorbenion	30,900	29,971	-929
Costau teithio a chynhaliaeth	1,050	354	-696
Amrywiol	1,880	338	-1,542
Cyfanswm y Costau Cynnal	**60,630**	**37,127**	**-23,503**
Hysbysebu	12,400	0	-12,400
Costau AO	0	0	0
Ffioedd Ymchwiliadau	0	0	0
Ffioedd y Comisiwn	9,300	1,446	-7,854
ESRI (DU)	0	0	0
Costau teithio a chynhaliaeth	2,200	13	-2,187
Amrywiol	5,670	862	-4,808
Cyfanswm y Costau Cyfredol Eraill	**29,570**	**2,321**	**-27,249**
Cyfanswm	**90,200**	**39,448**	**-50,752**

17. Mae'r tabl isod yn dangos lefel gynlluniedig a gwir yr Ysgrifenyddiaeth yn ôl cyfnodau chwarterol yn ystod y flwyddyn ariannol.

Nifer y Staff – 2008/2009

	1/4/2008		1/7/2008		1/10/2008		1/1/2009	
Gradd	**Cynll**	**Gwir**	**Cynll**	**Gwir**	**Cynll**	**Gwir**	**Cynll**	**Gwir**
Cyd-ysgrifennydd.	0.60	0.04	0.60	0.10	0.60	0.06	0.60	0.04
LICC Band E	1.00	0.02	1.00	0.01	1.00	0.01	1.00	0.01
LICC Band C	2.00	0.01	2.00	0.00	2.00	0.04	2.00	0.01
LICC Band A/B	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00
Cyfanswm	3.60	0.07	3.60	0.11	3.60	0.11	3.60	0.06

Sefydlwyd nifer gynlluniedig y staff gan y Memorandwm o Gytundeb ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau Comisiwn Ffiniau Cymru i Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ac fe'i seiliwyd ar ofyn tybiedig o 60% o amser y Cyd-ysgrifennydd a 100% o amser 1 x LICC Band E a 100% o amser 2 x LICC Band C er mwyn cwblhau'r Pumed Arolygiad Rheolaidd.

Monitro Gwariant

18. Bob chwarter, mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno adroddiad i'r adran noddi yn manylu ar wariant chwarterol a than / gorwario disgwyliedig.

RHAGLEN WAITH AMLINELLOL AR GYFER 2009/2010

Rhaglen

19. Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod fydd £93,050. Bydd nifer y staff yn gyfwerth â 3.6 nifer staff amser cyfan. Ein nod penodol fydd:

- Sicrhau y darperir y gefnogaeth angenrheidiol i gwblhau hynt yr arolwg Interim i ddeddfwriaeth.
- Gwneud y trefniadau ar gyfer unrhyw arolygon interim ychwanegol y gallai fod angen eu cynnal.